E-friffiad i aelodau 28 Mehefin 2019
Members' e-briefing 28 June 2019

This briefing is bilingual, click here for the English version.

---

Mae'r e-friffiad wythnosol hon yn cael ei baratoi'n arbennig ar eich cyfer chi fel rhan o'ch pecyn aelodaeth Plant yng Nghymru. Mae'n rhoi gwybodaeth i chi am y newyddion a'r polisïau diweddaraf sy'n effeithio ar blant a theuluoedd yng Nghymru, ac mae hefyd yn cynnwys manylion digwyddiadau a swyddi gwag a allai fod o ddiddordeb i chi.

I weld y rhestr lawn o fuddion aelodaeth sydd ar gael i chi, cliciwch yma. Os oes gennych sylwadau ar yr e-friffiad hon, cysylltwch â info@childreninwales.org.uk.

Cliciwch yma i weld y swyddi gwag diweddaraf gan Plant yng Nghymru a'n haelodau.

---

# *Hyfforddiant a digwyddiadau*

| | | |
|---|---|---|
| 04.07.2019 | Ymlyniad a'i effaith yn y blynyddoedd | Caerdydd |
| 09.07.2019 | Cefnogi Gofalwyr Ifanc: Pwy sy'n Gofalu am y Gofalwyr | Caerdydd |
| 10.07.2019 | ACE - Adeiladu Gwydnwch yn wyned Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod | Conwy |
| 12.07.2019 | Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol wrth Ddiogelu Plant | Caerdydd |
| 15.07.2019 | Cydnabod ac ymateb i blant a phobl ifanc sy'n dangos thueddiadau hunan-niewd a hunanladdol | Caerdydd |
| 10.09.2019 | Cyflwyniad i gefnogi Plant a Phobl Ifanc Trawsryweddol | Caerdydd |

*Gellir cael mynediad at amserlen yr hyfforddiant a'r digwyddiadau yn llawn o wefan Plant yng Nghymru.*

*Cliciwch yma am ragor o wybodaeth am ddigwyddiadau a hyfforddiant i'n haelodau.*




## *Digwyddiad i ddathlu 30 mlynedd o Gonfenswin y CCUHP yng Nghymru*

Bydd 20 Tachwedd 2019 yn nodi 30 mlynedd ers creu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn. Bydd y digwyddiad hwn yn cydnabod taith CCUHP yng Nghymru hyd yma, yn ogystal ag edrych ar yr hyn sydd angen ei gyflawni yn y dyfodol.

**Bydd y rhaglen yn cynnwys**

- Pobl ifanc
- Mark Drakeford AC, Prif Weinidog Cymru
- Julie Morgan AC, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru
- Siaradwr rhyngwladol (i'w gadarnhau)
- a llawer mwy

**DIGWYDDIAD DI-DÂL YW HWN**

Rhagor o fanylion i ddilyn

---

## *Cymru Ifanc yn croesawu Aelodau'r Senedd Ieuenctid yng Nghaerdydd ar gyfer Confensiwn 1 Senedd Ieuenctid y DU*



O flaen lansiad Gwneud Eich Marc yng Ngorffennaf, cynhaliodd menter gyfranogiad Plant yng Nghymru, Cymru Ifanc, ddigwyddiad Confensiwn 1 Senedd Ieuenctid y DU.

Yn y digwyddiad, gwnaeth Aelodau Senedd Ieuenctid y DU dderbyn hyfforddiant, cymryd rhan yn yr ymgyrch genedlaethol, rhannu arfer gorau a rhwydweithio.

Yn y bore, croesawodd y cynrychiolwyr un o Ymddiriedolwyr Cyngor Ieuenctid Prydain, Joe Stockley, ac edrychant ar gynllunio eu hymgyrchoedd am y flwyddyn. Yn y prynhawn, edrychant ar gofrestriad UKYP a'r gynhadledd flynyddol yn Leeds.

Cafodd y digwyddiad, a gafodd ei gynnal yng Nghaerdydd, ei fynychu gan ychydig o dan 30 o Aelodau'r Senedd Ieuenctid.

Pan ddaeth y digwyddiad i ben, roedd digonedd o fwyd ar ôl o'r cinio bwffe, felly yn hytrach na gadael iddo fynd yn wastraff, penderfynodd rhai o'r Aelodau ei becynnu a'i ddosbarthu i bobl a oedd yn cysgu ar y stryd o amgylch y ddinas.

---

## *Senedd Ieuenctid Cymru yn ymuno â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y sesiwn ar y cyd cyntaf*

Bu i Senedd Ieuenctid Cymru gynnal sesiwn ar y cyd â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Mehefin 2019; y sesiwn gyntaf o'i math yn y byd, o bosib.

Ar ddiwedd y drafodaeth, cytunodd y Senedd Ieuenctid a'r Cynulliad ar gyd-ddatganiad gwleidyddol.

Mae'r datganiad yn dweud y bydd gwaith Senedd Ieuenctid Cymru yn rhan bwysig o wneud penderfyniadau yng Nghymru. Mae'n dweud y byddant yn gwella'r ffordd mae pobl ifanc yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau yng Nghymru, i gydymffurfio ag Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae aelodau Senedd Ieuenctid Cymru wedi rhannu eu barn gyda Phwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad ar Fil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) eisoes. Yn ystod y drafodaeth, bu i gadeirydd y pwyllgor, Lynne Neagle AC, annog Aelodau'r Cynulliad ac aelodau'r Senedd Ieuenctid i barhau i weithio gyda'i gilydd.

---

## *Llywodraeth Cymru yn lansio Strategaeth Gwaith Ieuenctid 2019*




Mae'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro wedi cyhoeddi ei Strategaeth Gwaith Ieuenctid 2019.

Cafodd y strategaeth ei lansio gan y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AC, mewn digwyddiad yn y Senedd ar gyfer Wythnos Gwaith Ieuenctid ar 24 Mehefin 2019.

Mae pum nod i'r strategaeth.

Y nod cyntaf yw bod pobl ifanc yng Nghymru yn ffynnu. Yn yr achos hwn, mae 'ffynnu' yn golygu y bydd pobl ifanc yn "canfod eu llais, ffurfio a chyfleu eu syniadau, datblygu annibyniaeth, meithrin sgiliau, gwneud ffrindiau ac, yn bwysicach na dim, cael hwyl" meddai'r strategaeth.

Y nodau eraill yw bod:

- gwaith ieuenctid yn hygyrch ac yn gynhwysol;
- gweithwyr ieuenctid proffesiynol sy'n wirfoddol neu'n gweithio am dâl yn cael eu cefnogi i wella eu hymarfer drwy gydol eu gyrfa;
- pobl yn deall ac yn gwerthfawrogi gwaith ieuenctid;
- a bod gwaith ieuenctid yng Nghymru yn cael ei drefnu er mwyn iddo barhau am gyfnod hir.

Bydd Llywodraeth Cymru, Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro a phobl ifanc yn helpu gweithwyr ieuenctid, meddai'r strategaeth, i ddefnyddio'r strategaeth yn eu gwaith. O ran sut y bydd hyn yn digwydd, caiff ei ddisgrifio yn y cynllun gweithredu gwaith ieuenctid.

---

## *NSPCC: Pa mor ddiogel yw ein plant? 2019*




Mae'r NSPCC wedi cyhoeddi eu hadroddiad blynyddol ar ddiogelwch plant, 'Pa mor ddiogel yw ein plant? 2019'.

Fel arfer, mae'r adroddiad hwn yn edrych ar ddata diogelu plant cyfredol o bob rhan o'r DU ar gyfer y flwyddyn dan sylw.

Eleni, fodd bynnag, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) am gasglu'r ystadegau ar gam-drin plant. Disgwylir y setiau cyntaf o ddata ar gyfer Cymru a Lloegr yn ystod gaeaf 2019/2020.

Gan fod yr ONS yn gwneud y gwaith hwn, mae'r NSPCC wedi penderfynu canolbwyntio ar gam-drin ar-lein yn eu hadroddiad.

Mae prif ganfyddiadau'r adroddiad yn cynnwys cynnydd yng nghyfraddau a nifer y troseddau rhywiol ar-lein yn erbyn plant yng Nghymru a Lloegr a gofnodwyd gan yr heddlu, ymhlith pethau eraill.

Mae'r adroddiad yn cynnwys galwadau am bolisïau, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ofyn i lywodraeth y DU greu rheolydd i wneud cwmnïau cyfryngau cymdeithasol yn atebol.

---

## Am y newyddion a'r polisi diweddaraf ewch i wefan Plant yng Nghymru.

---

Children in Wales
Plant yng Nghymru

---

This weekly e-briefing is prepared exclusively for you as part of your membership to Children in Wales. It provides you with information on the latest news and policy impacting on children and families in Wales, and also includes details of events and vacancies which may be of interest to you.

To view the full list of membership benefits that you can access, please click here. If you have any comments about this e-briefing please contact info@childreninwales.org.uk.

Click here to access the latest job vacancies from Children in Wales and our members.

---

# *Training and events*

| | | |
|---|---|---|
| 04.07.2019 | Attachment and its impact in the early years | Cardiff |
| 09.07.2019 | Supporting Young Caerers: Who Cares for the Carers | Cardiff |
| 10.07.2019 | ACE - Building resilience in the face of adverse childhood experiences | Conwy |
| 12.07.2019 | Cultural Awareness in Safeguarding Children | Cardiff |
| 15.07.2019 | Recognising & responding to children & young people showing self-harm & suicidal tendencies | Cardiff |
| 10.09.2019 | An introduction to supporting transgender children and young people | Cardiff |

*The full training and events schedule can be accessed from the Children in Wales website.*

*Click here for more information about our members' events and training.*

---




## *An event to celebrate 30 years of the UNCRC in Wales*

November 20th 2019 will signify the 30th year since the UN Convention on the Rights of the Child was created. This event will recognise the journey that the UNCRC has been on in Wales to date, as well as looking what needs to be achieved in the future.

**Programme will include**

- Young people
- Mark Drakeford AM, First Minister of Wales
- Julie Morgan AM, Deputy Minister for Health and Social Services
- Sally Holland, Children's Commissioner for Wales
- International speaker (tbc)
- and many more

**THIS EVENT IS FREE OF CHARGE**

More details to follow

---

## *Young Wales host Members of Youth Parliament in Cardiff for UK Youth Parliament Convention 1*



Ahead of the Make Your Mark launch in July, Children in Wales' participation initiative, Young Wales, held the UK Youth Parliament Convention 1 event.

At the event, Members of UK Youth Parliament

received training, got involved in the national campaign, and share best practice and network.

In the morning attendees welcomed British Youth Council Trustee, Joe Stockley, and looked at planning their campaigns for the year. In the afternoon, they looked at UKYP registration and the annual conference in Leeds.

Held in Cardiff, the event was attended by just under 30 MYPs.

After the event concluded, there was plenty of food left from the buffet at lunch, so rather than let it go to waste, some of the MYP's decided to box it up and deliver it to people rough sleeping around the city.

---

## *Welsh Youth Parliament joins National Assembly for first ever joint session*

In what might be a world first, the Welsh Youth Parliament (WYP) held a joint session with the National Assembly for Wales on 24 June 2019.

At the end of the joint debate, the WYP and the Assembly both agreed on a joint political declaration.

The declaration says that the Welsh Youth Parliament's work will be an important part of making decisions in Wales. It says that they will improve the ways young people are involved in making decisions in Wales, to meet Article 12 of the United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC).

Members of the Welsh Youth Parliament have already given their views to the Assembly's Children, Young People and Education committee on the Children (Abolition of Defence of Reasonable Punishment) (Wales) Bill. During the debate, Lynne Neagle AM, chair of the committee urged AMs and Youth Parliament members to continue working together.

---

## *Welsh Government launches Youth Work Strategy for 2019*




The Interim Youth Work Board has published its Youth work strategy for Wales 2019.

The strategy was launched by the Minister for Education, Kirsty Williams AM, at an event at the Senedd for Youth Work Week on 24 June 2019.

The strategy has five key aims.

The first is that young people in Wales thrive. In this case, 'thriving' means that young people will "find their voice, formulate and convey their ideas, develop autonomy, build skills, make friends and, importantly, have fun" says the strategy.

The remaining aims are that:

- youth work is accessible and inclusive;

- paid and voluntary youth work staff have support during their careers and support to improve the ways they work;
- people understand what youth work is and value it;
- and youth work in Wales is organised so that it can continue for a long time.

Welsh Government, the Interim Youth Work Board and young people will help youth workers, the strategy says, to use the strategy in their work. How this will happen will be described in the youth work implementation plan.

---




## *NSPCC: How safe are our children? 2019*

NSPCC have published their annual report into child protection, 'How safe are our children? 2019'.

Normally this report covers current child protection data from across the UK for the relevant year.

This year, however, the Office for National Statistics (ONS) is going to compile the statistics on child abuse. The first sets of data for England and Wales are expected in Winter 2019/2020.

With the ONS doing this work, NSPCC has instead decided to focus their report on online abuse.

The report's key findings include increases in the numbers and rates of online child sexual offences in England and Wales recorded by the police, amongst other things.

The report also includes policy calls, which focus mainly on asking the UK government to create a regulator to hold social media companies accountable.

---

For the latest news and policy please visit the Children in Wales.

---

STAY CONNECTED:

Dewiswch yr wybodaeth rydych yn dymuno ei derbyn

I newid eich dewisiadau ac i ddweud wrthym ni pa negeseuon e-bost rydych yn dymuno eu derbyn, cliciwch **'Diweddaru Proffil'** isod.

I atal pob e-bost oddi wrth Plant yng Nghymru, cliciwch '**Datdanysgrifio**'.

Byddwch yn Ymwybodol: Os **cliciwch Datdanysgrifio**, byddwch yn datdanysgrifio o holl wybodaeth a negeseuon e-bost marchnata Plant yng Nghymru.

Choose the information you want to receive

To change your preferences and tell us which emails you want to receive**,** click **'Update Profile'** below.

To stop all e-mails from Children in Wales, click '**Unsubscribe**'.

Please, Be Aware: If you **click unsubscribe**, you will be unsubscribing from all Children in Wales information and marketing emails.